# Canllaw i Raglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes Cyswllt Ffermio

# Cynnwys


Cofrestru gyda Cyswllt Ffermio / Mewngofnodi i'r System BOSS................................ 3
Rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes..................................................... 4
Cynllun Datblygu Personol (PDP)........................................................................ 5
Sut ydw i'n gwneud cais ar gyfer Cyrsiau Hyfforddiant Achrededig Byr?.............................. 6
Ydw i'n gymwys i dderbyn Cymorth Ariannol?.............................................................. 7
Cyrsiau a Darparwyr Hyfforddiant sydd wedi'u Cymeradwyo............................................. 9
Gwybodaeth Ddefnyddiol.............................................................................................. 10
Awgrymiadau Defnyddiol - Problemau Technegol ........................................................ 13
Awgrymiadau Defnyddiol – Mewngofnodi ..................................................................... 15
Awgrymiadau Defnyddiol - Mynediad i'r We ............................................................... 16
Awgrymiadau Defnyddiol - Problemau gyda'r Porwr ...................................................... 17
Awgrymiadau Defnyddiol – Sgwrsio Byw ........................................................................ 18

# Cofrestru gyda Cyswllt Ffermio

Cofrestwch gyda Cyswllt Ffermio gan ddefnyddio'r ddolen isod. Yna gallwch gael mynediad at y Rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes;

https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/ffurflen-gofrestru-cyswllt-ffermio

# Mewngofnodi i'r system BOSS

Mae'r system BOSS yn eich galluogi i gael mynediad at holl ddeunydd Cyswllt Ffermio. Gallwch hefyd greu Cynllun Datblygu Personol. Mae hwn yn adnodd defnyddiol a fydd yn monitro eich cynnydd trwy gydol y rhaglen ac mae'n bersonol i chi. Gallwch ei ddiweddaru ar unrhyw adeg, gan ddangos eich datblygiad personol wrth i'ch gwybodaeth gynyddu. Gellir cael mynediad at y system BOSS trwy ddefnyddio'r ddolen isod;

https://businesswales.gov.wales/boss/?lang=cy

PEIDIWCH â cheisio cofrestru ar y system BOSS nes i chi dderbyn y **DDWY** neges ebost unigol gan y Ganolfan Wasanaeth (wedi i chi gofrestru gyda Cyswllt Ffermio). Bydd y negeseuon e-bost yn cynnwys manylion eich **ENW DEFNYDDIWR** a'ch **CYFRINAIR** i'w defnyddio i **FEWNGOFNODI**.

# Rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes

Nod y Rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes yw darparu diwydiant ffermio a choedwigaeth mwy proffesiynol a fydd yn cael ei ddarparu trwy gyfuniad o hyfforddiant uniongyrchol ac e-ddysgu ar lein. Mae wedi’i lunio i gefnogi'r dyhead i fusnesau ffermio a choedwigaeth ddod yn fwy effeithlon, craff a gwydn, a bydd yn cael ei ddarparu trwy bedair prif faes:

**Datblygiad Proffeisynol Parhaus –** fframwaith gynhwysfawr sy'n cofnodi pob gweithgaredd Cyswllt Ffermio a gwblheir gan unigolyn

**Cynllun Datblygu Personol -** adnodd ar lein i gynorthwyo unigolion adnabod nodau tymor byr a thymor hir, bylchau mewn sgiliau, ac i nodi anghenion hyfforddiant

**Modiwlau e-ddysgu –** pecynnau dysgu rhyngweithiol sy’n galluogi defnyddwywr i ddysgu ar amser sy'n gyfleus iddyn nhw

**Hyfforddiant Achrededig Byr –** cymorth ariannol ar gael er mwyn cwblhau cyrsiau hyfforddiant trwy rwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant wedi’u cymeradwyo

# Cynllun Datblygu Personol (PDP)

Mae Cynllun Datblygu Personol (PDP) yn gynllun gweithredu'n seiliedig ar ymwybyddiaeth, gwerthoedd, myfyrdod, gosod nodau a chynllunio ar gyfer datblygiad personol. Mae'n ddogfen barhaus y gellir ei ddiweddaru ar unrhyw adeg ac mae'n bersonol i'r unigolyn sy'n ei gwblhau.

Mae hefyd yn cynorthwyo i ganfod cryfderau a gwendidau ac yn galluogi'r unigolyn ac eraill i fesur cynnydd. Felly, mae cwblhau PDP ar lein yn gam cyntaf hanfodol i unrhyw unigolyn cymwys cyn cael mynediad at gymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant fel rhan o'r Rhaglen Dysgu a Datblygu Gydol Oes.

Mae'r cynllun yn adnodd defnyddiol er mwyn cyfeirio at feysydd penodol lle gellir gwneud y mwyaf o'r cryfderau a gwella unrhyw wendidau.

Am fwy o fanylion ynglŷn â sut i gwblhau Cynllun Datblygu Personol, cyfeiriwch at y Canllaw Defnyddwyr "Sut i gwblhau PDP".

# Sut ydw i'n gwneud cais am gymorth ariannol ar gyfer Cyrsiau Hyfforddiant Achrededig Byr?

1. Mae'n rhaid i chi fod wedi cofrestru gyda Cyswllt Ffermio
2. Mae angen i chi gwblhau'r **Cynllun Datblygu Personol** ar lein cyn i chi allu cyflwyno cais am gymorth ariannol. Gellir gwneud hyn ar unrhyw adeg, nid oes rhaid ei gwblhau o fewn y cyfnodau ymgeisio.
3. Os ydych chi'n gwneud cais am gymorth ariannol i gwblhau cwrs o Gategori 3 – Defnyddio Peiriannau ac Offer, mae'n rhaid i chi gwblhau'r cwrs **Iechyd a Diogelwch** ar lein cyn cyflwyno'r cais.
4. Siaradwch gyda'ch darparwr hyfforddiant lleol sydd wedi'i gymeradwyo ynglŷn â dyddiadau'r cyrsiau ac i gael gwybodaeth am y costau. MAE'N RHAID I CHI SICRHAU EICH BOD YN NODI'R COST CYWIR AR GYFER Y CWRS AR Y FFURFLEN GAIS.
5. Ymgeisiwch ar lein ar gyfer cymorth ariannol yn ystod cyfnod ymgeisio gan ddefnyddio'r Ffurflen Gais ar lein.
6. Am fwy o fanylion ynglŷn â sut i gyflwyno cais, cyfeiriwch at y Canllaw Defnyddwyr "Sut i gwblhau cais am gymorth ariannol".
7. Cewch eich hysbysu p'un ai yweich cymorth ariannol wedi ei gymeradwyo ai peidio. Mae'n rhaid i chi dderbyn caniatad ysgrifenedig cyn dechrau'r hyfforddiant
8. Unwaith y byddwch wedi derbyn cymeradwyaeth am gymorth ariannol, mae'n rhaid i chi dalu'r cyfraniad a gytunwyd (20% o gyfanswm cost y cwrs ar gyfer cyrsiau Categori 1 a 2, 60% o gyfanswm costau'r cwrs ar gyfer cyrsiau Categori 3) i'r darparwr hyfforddiant.

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig: Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development: Europe Investing in Rural Areas
Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Ydw i’n gymwys i dderbyn Cymorth Ariannol?

Bydd hynny'n ddibynnol ar eich statws cyhwysedd wrth i chi gofrestru gyda Cyswllt Ffermio. Os nad ydych yn sicr o'ch statws cymhwysedd, cysylltwch â’r Ganolfan Wasanaeth ar 08456 000 813.

**1. Cyswllt Ffermio Llawn – Ffermio / Coedwigaeth**

Mae partneriaid busnes, aelodau agos o’r teulu (priod, meibion a merched) a gweithwyr cyflogedig PAYE yn gymwys i dderbyn hyd at uchafswm o dri chwrs bob blwyddyn. Os mae’r cleient dan 40 mlwydd oed ar ddyddiad cyflwyno’r cais, maent yn gymwys i dderbyn hyd at bum cwrs bob blwyddyn.  Fodd bynnag, dim ond un cais ar gyfer Categori 3 – Defnyddio Peiriannau ac Offer y mae hawl i gleientiaid wneud cais ar ei gyfer o fewn cyfnod o 12 mis.

**2. Contractwr Busnes – Ffermio / Coedwigaeth**

Uchafswm o dri chwrs i bob bunses dros gyfnod y rhaglen.

**3. Newydd Ddyfodiaid**

Mae partneriaid busnes yn gymwys i dderbyn uchafswm o dri chwrs bob blwyddyn. Os mae’r cleient dan 40 mlwydd oed wrth gyflwyno’r cais, maent yn gymwys i dderbyn hyd at bum cwrs bob blwyddyn.  Fodd bynnag, dim ond un cais ar gyfer Categori 3 – Defnyddio [illegible] Offer y mae hawl i gleientiaid wneud cais ar ei gyfer o fewn cyfnod o 12 mis.

# Ydw i'n gymwys i dderbyn Cymorth Ariannol?

Bydd hynny'n ddibynnol ar eich statws cyhwysedd wrth i chi gofrestru gyda Cyswllt Ffermio. Os nad ydych yn sicr o'ch statws cymhwysedd, cysylltwch â'r Ganolfan Wasanaeth ar 08456 000 813.

**4. Systemau Ffermio / Coedwigaeth Niche >550 awr o lafur arferol bob blwyddyn**

Mae partneriaid busnes, aelodau agos o'r teulu (priod, meibion a merched) a gweithwyr cyflogedig PAYE yn gymwys hyd at uchafswm o dri chwrs bob blwyddyn. . Os mae'r cleient dan 40 mlwydd ar ddyddiad cyflwyno'r cais, maent yn gymwys i dderbyn hyd at bum cwrs bob blwyddyn.  Fodd bynnag, dim ond un cais ar gyfer Categori 3 – Defnyddio Peiriannau ac Offer y mae hawl i gleientiaid wneud cais ar ei gyfer o fewn cyfnod o 12 mis.

**5. Systemau <550 awr o lafur arferol bob blwyddyn**

Uchafswm o dri chwrs dros gyfnod y rhaglen.

**6. Myfyriwr**

Uchafswm o dri chwrs i bob unigolyn dros gyfnod y rhaglen.

# Cyrsiau a Darparwyr Hyfforddiant wedi'u Cymeradwyo

Mae'r holl wybodaeth ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio ac ar wefan BOSS

https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/

https://businesswales.gov.wales/boss

# Gwybodaeth Ddefnyddiol

Mae'n bwysig sylweddoli **nad oes modd** addasu'r gost unwaith y byddwch wedi cwblhau adran costau'r cwrs ac wedi cyflwyno'r cais.

Wedi i'ch cais am gymorth ariannol gael ei gymeradwyo, os byddwch yn cael trafferth cwblhau'r hyfforddiant neu ganfod cwrs hyfforddiant, cysylltwch â Lantra ar 01982 552646 cyn gynted â phosib er mwyn i ni allu ymchwilio i'r mater a'ch cynorthwyo i gwblhau'r hyfforddiant.

Os nad yw eich cais am gymorth ariannol yn cael ei gymeradwyo, mae'n bosib ail gyflwyno cais yn ystod y Cyfnod Ymgeisio nesaf. Cysylltwch â'ch Swyddog Datblygu lleol a fydd yn gallu eich cynorthwyo i gwblhau eich PDP a'ch ffurflen gais.

# Gwybodaeth Ddefnyddiol

Cyn cyflwyno cais am gymorth ariannol, meddyliwch yn ofalus am y darparwr hyfforddiant y byddwch yn ei ddewis a'r cwrs yr ydych yn gwneud cais amdano. Rydym yn cydnabod y bydd amgylchiadau lle byddwch yn cael anawsterau ar ôl i'r cais gael ei gymeradwyo, ac mae prosesau mewn lle i'ch cynorthwyo i gwblhau eich cwrs hyfforddiant.

A yw'r darparwr hyfforddiant yn cael trafferth darparu'r cwrs a ddewiswyd gennych? Os felly, mae'n bosib y bydd angen i chi newid y darparwr hyfforddiant ar ôl derbyn cymeradwyaeth am gymorth ariannol. Os ydych yn dymuno newid eich darparwr hyfforddiant:

Cysylltwch â'r Ganolfan Wasanaeth ar 08456 000 813 neu anfonwch e-bost at farmingconnect@menterabusnes.co.uk

Byddant yn anfon "Ffurflen Newid Cais" atoch dros e-bost, ac mae'n rhaid ei chwblhau a'i dychwelyd i'r Ganolfan Wasanaeth. Byddant yn eich hysbysu o fewn 15 diwrnod a yw eich cais wedi bod yn llwyddiannus ai peidio. Ni ddylech ddechrau'r hyfforddiant nes eich bod wedi derbyn cymeradwyaeth ysgrifenedig i newid eich darparwr hyfforddiant.

# Gwybodaeth Ddefnyddiol

Mae'n rhaid cwblhau cyrsiau hyfforddiant o fewn 9 mis o ddyddiad cymeradwyo'r cais. Os nad ydych yn gallu cwblhau'r hyfforddiant o fewn y cyfnod hwn, mae'n bosib canslo eich cymeradwyaeth mewn amgylchiadau eithriadol. Penderfyniad Cyswllt Ffermio yw barnu pob cais i ganslo cymeradwyaeth am gymorth ariannol ar sail achos unigol.
Er mwyn canslo cais sydd wedi'i gymeradwyo, mae'n rhaid i chi:


Gysylltu â'r Ganolfan Wasanaeth ar 08456 000 813 neu anfonwch e-bost at farmingconnect@menterabusnes.co.uk

Byddant yn anfon "Ffurflen Newid Cais" atoch dros e-bost, ac mae'n rhaid ei chwblhau a'i dychwelyd i'r Ganolfan Wasanaeth. Byddant yn eich hysbysu o fewn 15 diwrnod a yw eich cais i ganslo eich cymeradwyaeth wedi bod yn llwyddiannus ai peidio.

Os nad ydych yn hysbysu Cyswllt Ffermio bod angen i chi ganslo'r gymeradwyaeth ar gyfer y cais ac nad yw'r arian yn cael ei hawlio o fewn y cyfnod 9 mis, ni fydd modd i chi gyflwyno ail gais am gymorth ariannol ar gyfer yr un cwrs.

# Awgrymiadau Denfyddiol – Problemau Technegol

Mae'r dudalen hon yn dangos sut i fynd i'r afael â phroblemau technegol ar y safle BOSS ei hun. Os oes gennych broblemau mewngofnodi yn y lle cyntaf, gallai fod yn fanteisiol i chi edrych ar y Cwestiynau Cyffredin yma a sut i gysylltu â'r tîm BOSS.




1. Cliciwch ar y geiriau "Cwestiynau Cyffredin", a bydd y sgrin ar y sleid nesaf yn ymddangos.

# Awgrymiadau Denfyddiol – Problemau Technego

Fel y gwelwch, mae dau glic arall wedi'u gwneud. Un ar y gair 'Technegol' (!) ac un ar y frawddeg; '1. Pam nad ydw i'n gallu gweld cynnwys y cwrs? (Rhwystrwr Ffenestr Naid) (2). Gallai hyn eich cynorthwyo os ydych yn cael trafferth hyd yn oed i weld y cynnwys.

**Cwestiynau Cyffredin**

1. ***Beth ydi BOSS?***
2. ***Sut mae cael mynediad i gyrsiau BOSS?***
3. ***Technegol*** (1)
   1. Pam nad ydw i'n gallu gweld cynnwys y cwrs? (Rhwystrwr Ffenestri Naid) (2)

      Pan fyddwch yn clicio i agor cwrs BOSS am y tro cyntaf efallai y bydd neges yn codi yn dweud 'Ffenestr Naid Wedi'i Rhwystro'. Meddalwedd sy'n rhwystro ffenestri naid rhag ymddangos ar wefan yw rhwystrwr ffenestri naid. I gael gwybod sut i ddiffodd eich rhwystrwr ffenestri naid cliciwch yma.
   2. Sut mae cau ffenestr?
   3. Beth ydi bathodyn agored?
   4. Beth ydi 'pac cefn'?
   5. Pa borwyr gwe fyddech chi'n argymell i mi eu defnyddio gyda BOSS?
4. ***Cymhwyster a Mynediad***
5. ***Cymorth***
6. ***Cyrsiau***


# Awgrymiadau Defnyddiol – Mynediad i'r We

Os nad oes gennych fynediad i'r we, bydd rhwydwaith o ddarparwyr hyfforddiant, ar gael ar wefan Cyswllt Ffermio https://businesswales.gov.wales/farmingconnect/cy/hyfforddiant a fydd yn gallu eich cynorthwyo gyda chwblhau PDP.

Gallwch hefyd holi eich Swyddog Datblygu lleol a fydd yn gallu eich cynorthwyo i ganfod lleoliadau lleol gyda mynediad i'e we. Bydd Cyswllt Ffermio hefyd yn cynnal nifer o ddigwyddiadau lle bydd posib cwblhau'r PDP mewn lleoliadau ledled Cymru sydd â mynediad i'r we. Bydd mwy o wybodaeth ynglŷn â'r digwyddiadau hyn ar gael maes o law.

# Awgrymiadau Defnyddiol - Mewngofnodi

Sicrhewch eich bod yn mewngofnodi ar ochr chwith y dudalen gyda'r manylion cywir sef manylion mewngofnodi a chyfrinair BOSS a anfonwyd atoch gan y Ganolfan Wasanaeth. PEIDIWCH â chlicio ar y botwm sy'n dweud "Creu cyfrif dysgu". Mae'r system BOSS yn wefan Llywodraeth Cymru, sy'n cael ei ddefnyddio gan sawl sector gwahanol. Mae ein llwyfan E-ddysgu Cyswllt Ffermio yn eistedd o fewn y system BOSS ac felly nid yw'n bosib gwneud newidiadau i'r dudalen gyntaf hon.



# Awgrymiadau Defnyddiol – Problemau gyda'r Porwr

Os oes gennych broblemau gyda'ch Porwr, mae'r system BOSS yn gweithio orau ar Google Chrome, felly gallai fod yn fanteisiol i chi lawr lwytho'r porwr hwn, ac mae'n hawdd ac am ddim i wneud hynny. https://www.google.com/chrome/index.html.

Mae'r Porwr yn gweithredu fel mynediad i'r rhyngrwyd. Mae pob porwr ychydig yn wahanol, ond maent yn eich galluogi i 'bori'r' we a chael mynediad at wefannau amrywiol.

Os oes gennych ddyfais Windows, bydd gennych raglen pori o'r enw Internet Explorer.

Os oes gennych ddyfais Apple, byddwch yn defnyddio porwr o'r enw Safari.

Mae sawl porwr arall hefyd ar gael megis Google Chrome a Mozilla Firefox.

# Awgrymiadau Defnyddiol – Sgwrsio Byw

Os oes gennych gwestiwn technegol, fe welwch saeth mewn blwch melyn ar waelod y sgrîn ar y chwith sy'n dweud "Angen Cymorth". Cliciwch ar y saeth ar i fyny ar y dde (1) a byddwch yn gallu cael mynediad at Sgwrsio Byw gyda'r tîm cefnogi rhwng 9 a 5. Os ydych yn cwblhau PDP tu allan i'r oriau hyn, byddant yn ymateb i chi cyn gynted â phosib.

